**Cyfarwyddwr Cysylltiol Hijinx - Manyleb Person**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **SGILIAU A GALLU** | | |
| Sgiliau cyfarwyddo cryf, gyda hanes o waith uchelgeisiol, llawn effaith ar gyfer amrywiaeth o raddfeydd, cyd-destunau a chynulleidfaoedd, gan gynnwys lleoliadau traddodiadol ac amgylcheddau awyr agored/stryd neu benodol i safle. | X | |
| Y gallu i arwain a chymell timau creadigol, gan feithrin amgylchedd gwaith cydweithredol, cynhwysol a chefnogol. | X | |
| Yn fedrus o ran cyd-greu a dyfeisio prosesau, gyda neu heb awdur, ac yn gallu hwyluso dulliau chwareus a llawn dychymyg o wneud gwaith. | X | |
| Sgiliau cyfathrebu, rheoli rhanddeiliaid a llunio perthnasoedd cryf, gyda'r gallu i gydweithio'n effeithiol gydag artistiaid, partneriaid, cyllidwyr a chymunedau. | X | |
| Y gallu i asesu, rheoli a derbyn risg greadigol, gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau i ymdrin â heriau a chyfleoedd. | X | |
| Dealltwriaeth o reolaeth ariannol a'r gallu i weithio o fewn cyllidebau cytunedig, cefnogi cynllunio adnoddau a chyfrannu at gyflawni prosiect yn effeithiol. | X | |
| **PROFIAD** | | |
| Profiad y gellir ei ddangos fel ymarferwr theatr a chyfarwyddwr, gan arwain datblygiad creadigol cynyrchiadau o'r syniad cyntaf hyd at eu cyflwyno. | X | |
| Profiad o greu gwaith gyda, ac ar gyfer, cymunedau amrywiol. | X | |
| Profiad o ymarfer celfyddydau cynhwysol. | X | |
| Profiad o ddatblygu partneriaethau creadigol, cyd-gynyrchiadau a pherthnasoedd cydweithredol. | | X |
| Profiad o weithio'n rhyngwladol a datblygu perthnasoedd artistig rhyngwladol. | | X |
| Profiad o weithio ar draws cyd-destunau cyfranogol a phroffesiynol. | | X |
| Profiad bywyd fel artist anabl. | | X |
| **GWYBODAETH** | | |
| Dealltwriaeth gref o ymarfer cynhwysol ac ymrwymiad i ymwreiddio hygyrchedd a chynhwysiant mewn prosesau creadigol. | X | |
| Gwybodaeth am arferion diogelu, neu barodrwydd i ddilyn hyfforddiant perthnasol. | X | |
| Dealltwriaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ac ymrwymiad i ymarfer creadigol cynaliadwy. | X | |

| | | |
|---|---|---|
| Dealltwriaeth, neu barodrwydd i ddysgu am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | **X** | |
| Rhwydwaith sefydledig o gysylltiadau llawrydd yn sector theatr Cymru, gyda'r gallu i feithrin a datblygu timau artistig cyffrous. | | **X** |
| Gwybodaeth am dirwedd gelfyddydol Cymru, gan gynnwys cyllid celfyddydol yng Nghymru. | | **X** |
| Gwybodaeth am y sector gelf i bobl ag anabledd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. | | **X** |
| **AGWEDD** | | |
| Dull chwareus, chwilfrydig a chynhwysol mewn ymarfer creadigol, gydag angerdd am greu gwaith uchelgeisiol sy'n herio ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. | **X** | |
| Ymrwymiad i werthoedd, diwylliant a chenhadaeth Hijinx. | **X** | |
| Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus fel artist ac arweinydd. | **X** | |
| Dull hyblyg a pharod i addasu, a gweithio ar fin nos a phenwythnosau yn achlysurol yn ôl gofynion y swydd. | **X** | |
| Ymrwymiad i lunio perthnasoedd cadarnhaol a gweithio yn gynhwysol gydag artistiaid, cyfranogwyr, cydweithwyr a phartneriaid. | **X** | |